

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	6 Medi 2017
<b>TEITL</b>	Ethol Aelodau Newydd i'r Panel Grantiau
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno'r Cefndir ac Ethol Aelodau Newydd
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth ac ethol aelodau newydd.

## **1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn parhau yn y flwyddyn ariannol hon, sef y ffynhonnell grant sydd yn dod gan Lywodraeth Cymru i'r pum AHNE yn Nghymru i'w dyrannu ar gyfer prosiectau cynaliadwy eu naws yn eu cymunedau.

## **2.0 SEFYLLFA'R GRONFA HYD YMA**

2.1 Er gwybodaeth, cyfanswm y Gronfa eleni oedd £55,000 i bob ardal, ac o ran AHNE Llŷn, mae £32,806 yn weddill.

## **3.0 AELODAU PANEL GRANTIAU**

3.1 Mae'r amser wedi dod i ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau – sef y Panel fydd yn ymgynnull i ymdrin â phenderfynu ar geisiadau grant dros £3,000.

3.2 Yn y gorffennol, 8 aelod o'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol oedd aelodau'r Panel Grantiau.

## **4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod ac ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau.